Children's Participation in Schools

Economic and Social Research Council

ESRC Education Research Programme
Empowering educators

Symposiwm Set A4, Llawr yr Arddangosfa (Man trafod - cyflwyniad byr wedi'i ddilyn gan drafodaethau rownd y bwrdd)

Hawliau Cyfranogol Plant Bach yng Nghymru: Beth [nad] ydyn ni'n ei ddweud wrth ein hathrawon dan hyfforddiant? Mewnwelediadau o Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru

Crynodeb: Mae'r sesiwn drafod hon yn cyflwyno canfyddiadau o Gam 3 y prosiect, gan ganolbwyntio ar Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru. Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o waith cynharach, bydd yn dechrau gyda chyflwyniad sy'n edrych ar sut mae cyfranogiad plant yn cael ei ddeall, ei addysgu, a'i roi ar waith mewn rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon. Gan weithio ar y cyd ag addysgwyr athrawon o ysgolion a phrifysgolion, ochr yn ochr â myfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon, roedd y prosiect wedi archwilio gofyniad y Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr ddysgu *am, drwy ac ar gyfer* hawliau dynol. Mae'r sesiwn yn herio syniadau diofyn am 'lais y dysgwr' a thybiaethau am alluoedd plant bach, gan archwilio cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn penderfyniadau bob dydd a llunio cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth. Gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ymholiadau, nododd yr ymchwil y cyfleoedd a'r cyfyngiadau presennol o fewn elfennau Addysg Gychwynnol Athrawon yn yr ysgol ac yn y brifysgol. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu, er bod addysgeg gyfranogol yn aml yn cael ei hanwybyddu yn y ddarpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon, bod potensial sylweddol i ddatblygu, gyda goblygiadau pwysig o ran dysgu proffesiynol a gwireddu hawliau cyfranogol plant yn effeithiol yn y Cwricwlwm i Gymru.

Geiriau allweddol:

1. Cyfranogiad Plant
2. Addysg Gychwynnol Athrawon
3. Addysgeg Cyfranogiad
4. Cwricwlwm i Gymru

WEDI'I GADEIRIO GAN: Paul Redford, Prifysgol Gorllewin Lloegr

Mae Paul yn Athro Cyswllt, yn Seicolegydd Siartredig, yn aelod o Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) ac yn Gymrawd Hŷn yn yr Academi Addysg Uwch (SFHEA). Mae'n arbenigo mewn canolbwyntio ar bethau sy'n galluogi dysgu cadarnhaol. Mae ganddo ddiddordeb arbennig yn y ffactorau a all alluogi unigolion i ffynnu mewn amgylcheddau dysgu a helpu timau a sefydliadau i feithrin diwylliannau sy'n hyrwyddo twf a dysgu personol a phroffesiynol. Ar hyn o bryd mae Paul yn gyd-arweinydd yr MA mewn Arweinyddiaeth

Addysg ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr ac mae'n cyfrannu at brosiect mawr sy'n ymwneud ag effaith ffonau clyfar mewn ysgolion.

Hwylusydd

Dr Patrizio De Rossi, Prifysgol Gorllewin Lloegr

Mae Patrizio yn gydymaith ymchwil ac mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys chwarae gweithredol a llythrennedd corfforol, a chyfranogiad plant a phobl ifanc mewn addysg. Mae'n angerddol am gyd-gynhyrchu mewn ymchwil.